

Caerdydd

# Mynegai Cerdded a Beicio 2023

CARDIFF
CAERDYDD

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

Cyhoeddwyd Mawrth 2024



# Rhagair

## Ein gweledigaeth ar gyfer cerdded, olwyno a beicio yng Nghaerdydd



Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Cyngor Caerdydd wedi blaenoriaethu cerdded a beicio drwy fuddsoddi mewn seilwaith teithio llesol. Mae'r llwybrau newydd hyn wedi dod i'r amlwg fel cysylltiadau hanfodol, gan gryfhau gwydnwch a bywiogrwydd ein cymunedau.

Mae cymunedau difreintiedig yn profi effaith negyddol anghymesur gan draffig ffordd, oherwydd pryderon diogelwch ffyrdd ac ansawdd aer gwael, gan hefyd wynebu rhwystrau o ran cael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a llesol fforddiadwy. Mae canfod a mynd i'r afael â'r gwahaniaethau hyn yn parhau i fod yn hollbwysig wrth adeiladu system drafnidiaeth deg a chynhwysol.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad manwl o gymunedau Caerdydd, gan ddarparu dealltwriaeth ddyfnach o gyfranogiad teithio llesol a'r rhwystrau a wynebir gan wahanol grwpiau. Mae'n nodi cam pwysig arall wrth greu rhwydwaith teithio llesol sy'n diwallu anghenion holl drigolion Caerdydd.


Mae teithio llesol hefyd yn cynnig manteision byd-eang. Mae mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd yn fater brys, ac mae ail-flaenoriaethu ein harferion teithio, yn enwedig ar gyfer pellteroedd byrrach, yn elfen hollbwysig o leihau allyriadau niweidiol. Rydym wedi datgan argyfwng hinsawdd ac wedi nodi ein huchelgais i fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Mae 41% o'n hallyriadau carbon yn deillio o drafnidiaeth, felly mae newid i drafnidiaeth gynaliadwy yn hollbwysig. Rydym am ddyblu'r nifer o deithiau cynaliadwy o 2018-2030 i 76%.

Mae Sustrans Cymru, cyd-awduron yr adroddiad hwn, yn gweithio i wella hygyrchedd i gerdded, olwyno, a beicio, a pha mor braf yw ein trefi a'n dinasoedd i fyw ynddynt. Gyda'n gilydd, rydym yn rhagweld y bydd Caerdydd yn esiampl o ryng-gysylltedd, lle mae trafnidiaeth gynaliadwy yn cysylltu ac yn ategu ein cymunedau bywiog yn ddi-dor, a lle mae llesiant trigolion yn cael blaenoriaeth. Mae'r Mynegai Cerdded a Beicio diweddaraf hwn yn rhoi cipolwg cyfoes a chraff o'r uchelgais a rennir, gan fanylu ar brosiectau cyfredol y ddinas, agweddau ei thrigolion, a'r llwybr addawol ar gyfer y dyfodol.

Rwy'n ddiolchgar i bawb sy'n rhan o'r siwrne teithio llesol hon. I drigolion Caerdydd sy'n gwneud eu dewisiadau teithio bob dydd, i bawb a ymatebodd i'r arolwg ac a rannodd eu straeon, i swyddogion Cyngor Caerdydd sy'n llunio polisïau uchelgeisiol ac yn cyflawni ar lawr gwlad, ac i Sustrans Cymru am eu partneriaeth wrth gyflwyno'r adroddiad hwn.

Gyda'n gilydd, edrychwn ymlaen at ddyfodol ble mae mwy o deithio llesol yn meithrin ffyniant, cydraddoldeb ac aer glanach i bawb.

**Y Cynghorydd Dan De'Ath**
**Aelod Cabinet dros Drafnidiaeth a Chynllunio Strategol**



## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **4** | Crynodeb o'r adroddiad |
| **6** | Cerdded yng Nghaerdydd |
| **8** | Beicio yng Nghaerdydd |
| **10** | Buddion cerdded |
| **12** | Buddion beicio |
| **14** | Atebion cerdded |
| **16** | Atebion beicio |
| **18** | Atebion cymdogaeth |
| **20** | Datblygu Caerdydd |
| **22** | Edrych ymlaen |


## Mynegai Cerdded a Beicio

Y Mynegai Cerdded a Beicio (Bywyd Beicio gynt) yw'r asesiad mwyaf o gerdded, olwyno a beicio mewn ardaloedd trefol yn y DU ac Iwerddon.

Fe'i cyflwynir gan Sustrans mewn cydweithrediad â 23 o ddinasoedd ac ardaloedd dinesig. Mae pob dinas[i] yn adrodd ar y cynnydd a wnaed tuag at wneud cerdded, olwyno a beicio yn ffyrdd mwy deniadol ac arferol o deithio.

Mae'r Mynegai Cerdded a Beicio yn adrodd bob dwy flynedd. Dyma'r pumed adroddiad ar Gaerdydd a gynhyrchwyd mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd. Daw'r data yn yr adroddiad hwn o 2023 ac mae'n cynnwys data cerdded, olwyno a beicio lleol, modelu ac arolwg annibynnol o 1,169 o drigolion 16 oed neu hŷn yng Nghaerdydd. Cynhaliwyd yr arolwg rhwng Mawrth a Mehefin 2023. Cynhaliodd y sefydliad ymchwil cymdeithasol NatCen yr arolwg, sy'n cynrychioli'r holl drigolion, nid dim ond y rhai sy'n cerdded, olwyno neu feicio.

Ar draws yr adroddiad hwn rydym wedi cynnwys cymariaethau â data 2021 pan fo data ar gael.

Diolch i bobl Caerdydd a gymerodd ran yn yr arolwg a rhannu eu straeon gyda ni.

Ceir rhagor o fanylion am bob adroddiad Mynegai Cerdded a Beicio yma www.sustrans.org.uk/walking-cycling-index. Am ragor o ddata, yn cynnwys ffigurau 2019 pan fônt ar gael, gweler yr Index Data Tool.




### Diffinio olwyno

Rydym yn cydnabod nad yw rhai pobl sy'n defnyddio cymorth symudedd gydag olwynion, er enghraifft cadair olwyn neu sgwter symudedd, yn uniaethu â'r term cerdded, a gallai fod yn well ganddynt ddefnyddio'r term olwyno. Felly rydym yn defnyddio'r termau cerdded ac olwyno gyda'i gilydd er mwyn sicrhau ein bod mor gynhwysol â phosibl.

i. Defnyddir Dinas fel modd llaw-fer o gyfeirio at ddinasoedd, dinas-ranbarthau a bwrdeistrefi'r Mynegai Cerdded a Beicio.

# Penawdau

## Caerdydd

**Poblogaeth**[i]

362,221

**Ardal yr arolwg**





## Effaith y pandemig

Cafodd pandemig Covid-19 effaith fawr ar deithio. Yn 2021, pan roedd y rhan fwyaf o'r cyfyngiadau wedi cael eu codi, roedd llawer o bobl yn gwneud llai o siwrneiau ac yn gweithio o gartref.

Mae cyfranogiad mewn cerdded, olwyno a beicio'n rheolaidd wedi gostwng ers 2021.

**Trigolion sy'n teithio yn y moddau canlynol bum diwrnod yr wythnos neu fwy yng Nghaerdydd**




**49%**

o drigolion yn cerdded o leiaf bum diwrnod yr wythnos

**53%** yn 2021

**19%**

o drigolion yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos

**23%** yn 2021

## Nid yw cyfranogiad cerdded, olwyno a beicio yn gyfartal

Weithiau, mae dewisiadau teithio trigolion a'u canfyddiadau o gerdded, olwyno a beicio yn amrywio'n fawr rhwng gwahanol grwpiau.

**Cyfran y trigolion sy'n cerdded o leiaf bum niwrnod yr wythnos**

**36%** o bobl anabl

**54%** o bobl nad ydynt yn anabl

**Cyfran y trigolion sy'n beicio o leiaf unwaith yr wythnos**[iii]

**10%** o fenywod

**29%** o ddynion

## Nid yw pob preswylydd yn teimlo'n ddiogel a bod croeso iddynt yn eu cymdogaeth

**Cyfran y trigolion sy'n meddwl bod diogelwch cerdded neu olwyno'n dda yn eu hardal leol**

**53%** o grŵp economaidd-gymdeithasol DE

**61%** o grŵp economaidd-gymdeithasol AB

**Cyfran y trigolion sy'n meddwl bod diogelwch beicio yn dda**

**60%** o bobl 16–25 oed

**31%** o bobl 56–65 oed

**Cyfran y trigolion sy'n teimlo bod croeso iddynt ac sy'n gyfforddus yn cerdded, yn olwyno neu'n treulio amser ar strydoedd eu cymdogaeth**

**65%** o bobl o grwpiau lleiafrifol ethnig

**70%** o bobl wynion

Mae grŵp economaidd-gymdeithasol yn ddosbarthiad sy'n seiliedig ar alwedigaeth a gynhelir gan y Market Research Society. Grwpiau proffesiynol a rheolaethol yw A a B. Mae grwpiau D ac E yn alwedigaethau llaw lled-fedrus a di-grefft, pobl sy'n cadw tŷ a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth.



i. Cyfrifiad ONS 2021. Dyma'r data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer Caerdydd. ii. Teithio fel gyrrwr neu deithiwr mewn car, fan neu feic modur. Yn 2019, nid oedd y cwestiynau'n cynnwys teithio ar feic modur. iii. Roedd maint y sampl ar gyfer ymatebwyr a nododd eu rhywedd 'mewn ffordd arall' yn rhy isel i fod yn ystadegol arwyddocaol ac felly nid yw wedi'i gyflwyno yma.

## Mae pawb ar eu hennill pan fydd mwy o bobl yn cerdded, yn olwyno ac yn beicio

Bob dydd, mae cerdded, olwyno a beicio yng Nghaerdydd yn tynnu hyd at **92,000** o geir oddi ar y ffordd[iv]. Bob blwyddyn yng Nghaerdydd, mae'r tri dull hwn wedi'u cyfuno yn:

Atal
**745**
o gyflyrau iechyd hirdymor difrifol

Creu
**£245.5 miliwn**
mewn budd economaidd i unigolion ac i Gaerdydd

Arbed
**17,000 o dunelli**
o allyriadau nwyon tŷ gwydr

## Mae trigolion eisiau cerdded, olwyno a beicio mwy, a gyrru llai

**Y ganran o drigolion a hoffai gerdded, olwyno, beicio, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu yrru fwy neu lai yn y dyfodol:**

Mae **26%** o drigolion eisiau gyrru llai, ond mae **43%** o drigolion yn defnyddio car yn aml oherwydd nad oes opsiynau trafnidiaeth eraill ar gael.

**Cerdded neu olwyno**
**46%** mwy
**5%** llai

**Beicio**
**45%** mwy
**4%** llai

**Defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus**
**42%** mwy
**8%** llai

**Gyrru**
**14%** mwy
**26%** llai

## Mae trigolion eisiau gweld mwy o arian ar gyfer cerdded, olwyno, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus

**Canran y trigolion a hoffai weld mwy o wariant gan y llywodraeth yn eu hardal leol:**

**53%** ar gerdded ac olwyno
**53%** yn 2021

**41%** ar feicio
**55%** yn 2021

**76%** ar drafnidiaeth gyhoeddus
**69%** yn 2021

**35%** ar yrru
**28%** yn 2021

## Byddai mwy o gyllid yn helpu cefnogi cymunedau brafiach i fyw ynddynt

**Ymysg trigolion Caerdydd:**

**55%** yn cefnogi
**29%** yn gwrthwynebu
mwy o lwybrau beicio ar hyd ffyrdd, wedi'u gwahanu'n ffisegol oddi wrth draffig a cherddwyr

**72%** yn cefnogi
**12%** yn gwrthwynebu
creu mwy o gymdogaethau 20 munud[v]

**55%** yn cefnogi
**21%** yn gwrthwynebu
creu mwy o gymdogaethau traffig isel[vi]

**56%** yn cytuno
**26%** yn anghytuno
y byddai cynyddu lle i bobl gymdeithasu, cerdded a beicio ar eu stryd fawr leol yn gwella eu hardal leol

**64%** yn cefnogi
**15%** yn gwrthwynebu
gwahardd cerbydau rhag parcio ar y palmant

**54%** yn cefnogi
**24%** yn gwrthwynebu
symud buddsoddiad oddi wrth gynlluniau adeiladu ffyrdd i ariannu cerdded, olwyno, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus

iv. Yn seiliedig ar gerdded a beicio gan drigolion sy'n byw mewn cartref gyda char. Nid yw'n cynnwys teithiau beicio er hamdden neu gerdded neu olwyno er hamdden.
v. Gweler y diffiniad ar dudalen 14. vi. Gweler y ddogfen Methodoleg am ddiffiniad.



# Cerdded yng Nghaerdydd

## Cyfranogiad cerdded ac olwyno, diogelwch a boddhad

### Cyfranogiad cerdded ac olwyno

At ei gilydd yng Nghaerdydd mae'r nifer o bobl sy'n cerdded ac olwyno'n rheolaidd (o leiaf bum niwrnod yr wythnos) wedi lleihau ers 2021.

Mae cerdded ac olwyno yn aml yn cael eu hanwybyddu wrth drafod trafnidiaeth. Mae hyn er gwaethaf y ffaith ei fod yn ddefnydd effeithlon o ofod, yn dda i'n hiechyd ac nad yw'n creu unrhyw effaith amgylcheddol.

**94%**
o holl drigolion yn cerdded neu'n olwyno

**95%** yn 2021

**49%**
o drigolion yn cerdded o leiaf bum diwrnod yr wythnos

**53%** yn 2021

### Cyfran y trigolion sy'n cerdded o leiaf bum niwrnod yr wythnos

#### Rhywedd[i] a rhywioldeb

**47%** o fenywod
**50%** yn 2021

**51%** o ddynion
**56%** yn 2021

**63%** o bobl LHDTC+

**48%** o bobl nad ydynt yn LHDTC+

#### Ethnigrwydd

**47%** o bobl o grwpiau lleiafrifol ethnig
**45%** yn 2021

**49%** o bobl wynion
**54%** yn 2021

#### Oedran

**59%** o bobl 16–25 oed
**56%** yn 2021

**54%** o bobl 26–35 oed
**56%** yn 2021

**48%** o bobl 36–45 oed
**53%** yn 2021

**45%** o bobl 46–55 oed
**52%** yn 2021

**45%** o bobl 56–65 oed
**56%** yn 2021

**40%** o bobl 66+ oed
**46%** yn 2021

#### Anabledd

**36%** o bobl anabl
**50%** yn 2021

**54%** o bobl nad ydynt yn anabl
**55%** yn 2021

#### Grŵp economaidd-gymdeithasol[ii]

**52%** o AB
**54%** yn 2021

**54%** o C1
**59%** yn 2021

**40%** o C2
**36%** yn 2021

**37%** o DE
**47%** yn 2021

i. Roedd maint y sampl ar gyfer ymatebwyr a nododd eu rhywedd 'mewn ffordd arall' yn rhy isel i fod yn ystadegol arwyddocaol ac felly nid yw wedi'i gyflwyno yma.

ii. Mae grŵp economaidd-gymdeithasol yn ddosbarthiad sy'n seiliedig ar alwedigaeth a gynhelir gan y Market Research Society. Grwpiau proffesiynol a rheolaethol yw A a B. Grŵp C1 yw rolau goruchwyliol/ clerigol a myfyrwyr. Gweithwyr medrus yw grŵp C2. Mae grwpiau D ac E yn alwedigaethau llaw lled-fedrus a di-grefft, pobl sy'n cadw tŷ a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth.

## Diogelwch a boddhad cerdded ac olwyno

**61%**
o drigolion yn meddwl fod lefel diogelwch cerdded neu olwyno'n dda
**71%** yn 2021

**47%**
o drigolion yn meddwl bod lefel diogelwch cerdded neu olwyno i blant yn dda
**56%** yn 2021

**72%**
o drigolion yn meddwl bod eu hardal leol yn lle da i gerdded neu olwyno'n gyffredinol
**77%** yn 2021

## Cyfran y trigolion sy'n meddwl bod diogelwch cerdded neu olwyno'n dda yn eu hardal leol

### Rhywedd a rhywioldeb

**60%** o fenywod
**69%** yn 2021

**63%** o ddynion
**73%** yn 2021

**60%** o bobl LHDTC+

**63%** o bobl nad ydynt yn LHDTC+

### Ethnigrwydd

**72%** o bobl o grwpiau lleiafrifol ethnig
**65%** yn 2021

**59%** o bobl wynion
**72%** yn 2021

### Oedran

**69%** o bobl 16–25 oed
**72%** yn 2021

**60%** o bobl 26–35 oed
**72%** yn 2021

**62%** o bobl 36–45 oed
**67%** yn 2021

**56%** o bobl 46–55 oed
**70%** yn 2021

**55%** o bobl 56–65 oed
**72%** yn 2021

**64%** o bobl 66+ oed
**72%** yn 2021

### Anabledd

**53%** o bobl anabl
**61%** yn 2021

**65%** o bobl nad ydynt yn anabl
**74%** yn 2021

### Grŵp economaidd-gymdeithasol

**61%** o AB
**78%** yn 2021

**66%** o C1
**67%** yn 2021

**69%** o C2
**63%** yn 2021

**53%** o DE
**65%** yn 2021

## Lorraine



Rwyf bob amser wedi mwynhau cerdded, rwy'n gwneud yn rheolaidd, ac rwyf bob amser yn cerdded i'r gwaith ac yn ôl gan fy mod yn cyrraedd gan deimlo wedi ymlacio ac yn barod i ganolbwyntio ar y diwrnod.

Rwy'n mwynhau edrych ar erddi pobl a sgwrsio â phobl, rhywbeth na allwch ei wneud wrth deithio ar feic neu mewn car.

Mae yna fantais ychwanegol hefyd bod taith gerdded yn cymryd yr un amser ar gyfer pob taith, mantais bendant o'i gymharu â dulliau eraill o deithio.



# Beicio yng Nghaerdydd

## Cyfranogiad beicio, diogelwch a boddhad

### Cyfranogiad beicio

At ei gilydd yng Nghaerdydd, mae'r nifer o bobl yn beicio wedi lleihau ers 2021. Er gwaethaf potensial llawer mwy, dim ond **19%** o bobl sy'n beicio'n rheolaidd.[i]

Fodd bynnag, nid yw cyfranogiad beicio yn gyfartal. Gall rhwystrau i feicio fod yn llawer mwy amlwg i rai pobl. Diogelwch, gan gynnwys diogelwch ar y ffyrdd a diogelwch personol, yw'r rhwystr unigol mwyaf i feicio.[ii]

**43%**
o'r holl drigolion yn beicio
**46%** yn 2021

**19%**
o'r holl drigolion yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos
**23%** yn 2021

### Cyfran y trigolion sy'n beicio o leiaf unwaith yr wythnos

#### Rhywedd a rhywioldeb

**10%** o fenywod
**16%** yn 2021

**29%** o ddynion
**30%** yn 2021

**26%** o bobl LHDTC+

**19%** o bobl nad ydynt yn LHDTC+

#### Ethnigrwydd

**23%** o bobl o grwpiau lleiafrifol ethnig
**19%** yn 2021

**19%** o bobl wynion
**24%** yn 2021

#### Oedran

**24%** o bobl 16–25 oed
**31%** yn 2021

**20%** o bobl 26–35 oed
**22%** yn 2021

**20%** o bobl 36–45 oed
**30%** yn 2021

**25%** o bobl 46–55 oed
**23%** yn 2021

**18%** o bobl 56–65 oed
**22%** yn 2021

**8%** o bobl 66+ oed
**8%** yn 2021

#### Anabledd

**16%** o bobl anabl
**18%** yn 2021

**21%** o bobl nad ydynt yn anabl
**25%** yn 2021

#### Grŵp economaidd-gymdeithasol

**23%** o AB
**23%** yn 2021

**20%** o C1
**26%** yn 2021

**13%** o C2
**20%** yn 2021

**11%** o DE
**18%** yn 2021

i. Yn seiliedig ar bobl sy'n beicio o leiaf unwaith yr wythnos.
ii. Gweler Bywyd Beicio, Adroddiad Caerdydd 2019.

## Diogelwch a boddhad beicio

**41%**
o'r holl drigolion yn meddwl bod lefel diogelwch beicio yn eu hardal leol yn dda
**39%** yn 2021

**31%**
o'r holl drigolion yn meddwl bod lefel diogelwch beicio i blant yn dda
**30%** yn 2021

**47%**
o'r holl drigolion yn meddwl bod eu hardal leol yn lle da i feicio yn gyffredinol
**45%** yn 2021

### Cyfran y trigolion sy'n meddwl bod diogelwch beicio'n dda yn eu hardal leol

#### Rhywedd a rhywioldeb

**38%** o fenywod
**34%** yn 2021

**43%** o ddynion
**42%** yn 2021

**47%** o bobl LHDTC+

**41%** o bobl nad ydynt yn LHDTC+

#### Ethnigrwydd

**59%** o bobl o grwpiau lleiafrifol ethnig
**44%** yn 2021

**36%** o bobl wynion
**38%** yn 2021

#### Oedran

**60%** o bobl 16–25 oed
**55%** yn 2021

**37%** o bobl 26–35 oed
**40%** yn 2021

**39%** o bobl 36–45 oed
**29%** yn 2021

**32%** o bobl 46–55 oed
**35%** yn 2021

**31%** o bobl 56–65 oed
**40%** yn 2021

**36%** o bobl 66+ oed
**30%** yn 2021

#### Anabledd

**34%** o bobl anabl
**32%** yn 2021

**43%** o bobl nad ydynt yn anabl
**42%** yn 2021

#### Grŵp economaidd-gymdeithasol

**39%** o AB
**40%** yn 2021

**40%** o C1
**36%** yn 2021

**46%** o C2
**38%** yn 2021

**45%** o DE
**44%** yn 2021

### Salah



Mae llawer o bobl sy'n ceisio lloches sy'n byw yng Nghaerdydd yn dechrau beicio oherwydd ei fod yn fwy fforddiadwy ac yn haws na gyrru car. Mae'n bwysig iawn cynnal hynny, er mwyn annog pobl i barhau i feicio.

O fewn y gymuned Cwrdaidd yma, nid yw beicio yn boblogaidd, ond rwyf wedi sefydlu grŵp beicio prynhawn Sul. Mae'n grŵp da, ond mae'n fach.

Un peth rydw i wir eisiau ei wneud yw cael mwy o bobl i mewn i'r grŵp hwn a chynnwys menywod mewn beicio.

Dyw e ddim rhywbeth y mae menywod Cwrdaidd wedi arfer ag ef, ond rwyf am newid hynny.



# Buddion cerdded


## Pam mae pawb ar eu hennill pan fo mwy o bobl yn cerdded neu'n olwyno

### Mae trigolion Caerdydd yn cerdded neu'n olwyno 16 o weithiau o amgylch y byd bob dydd

O'i gymharu â 2021, mae lleihad wedi bod mewn teithiau cerdded ac olwyno i gyrchfannau ac ar gyfer hamddena a ffitrwydd.

**Teithiau cerdded ac olwyno blynyddol yn ôl pwrpas**[i]

**2023:**
**134.8 miliwn o deithiau**





Gyda'i gilydd, mae hyn yn golygu

**141.2 miliwn o filltiroedd**

= **390,000 milltir** y dydd

**2021:**
**151.5 miliwn o deithiau**




Gyda'i gilydd, mae hyn yn golygu

**160.7 miliwn o filltiroedd**

= **440,000 milltir** y dydd

### Mae cerdded ac olwyno o fudd i drigolion a'r economi leol

Mae'r Mynegai Cerdded a Beicio'n defnyddio model i ddeall costau a buddion gyrru a cherdded. Er enghraifft, amser teithio, costau rhedeg cerbydau, buddion iechyd, ansawdd aer a threthi.

5c yn 2021

**Arbedir 46c**[ii]

ar gyfer pob milltir a gaiff ei cherdded neu olwyno yn hytrach na gyrru yng Nghaerdydd.

ii. Mae'r buddion wedi cynyddu'n sylweddol, yn bennaf oherwydd costau cynyddol gyrru a mwy o dagfeydd traffig.

Dros flwyddyn mae hyn yn gyfanswm o

**£16.3 miliwn**

miliwn gan oedolion sydd â char ar eu haelwyd yn cerdded neu'n olwyno i'r gwaith, i'r ysgol ac i gyrchfannau eraill.

**£2 miliwn** yn 2021

Cyfanswm y budd economaidd blynyddol o'r holl deithiau cerdded ac olwyno yng Nghaerdydd yw

**£183.2 miliwn**[iii]


**£182.3 miliwn** yn 2021

i. Mae teithiau er mwynhad neu ffitrwydd yn cynnwys oedolion a phlant (gyda a heb oedolyn yn gwmpeini). Dangosir teithiau ysgol ar wahân ar gyfer plant yn unig. iii. Mae hyn yn cynnwys teithiau a gafodd eu gwneud drwy gerdded neu olwyno er mwyn mwynhad neu ffitrwydd, a theithiau i gyrchfannau gan bobl sydd â char a'r rhai sydd heb gar.

## Mae cerdded ac olwyno yn datgloi buddion iechyd i bawb

653 yn 2021

**Mae cerdded yng Nghaerdydd yn atal 564 o gyflyrau iechyd hirdymor difrifol bob blwyddyn**




Mae 'cyflyrau eraill' yn cynnwys diabetes math 2, strôc, canser y fron, canser y colon a'r rhefr.

Mae hyn yn arbed

£4.3 miliwn yn 2021

# £7.1 miliwn y flwyddyn

i'r GIG yng Nghaerdydd

cyfwerth â chost

140,000 yn 2021

# 170,000 o apwyntiadau meddyg teulu

Yn seiliedig ar gymhwyso data Caerdydd i offeryn MOVES Sport England sy'n cyfrifo'r enillion ar fuddsoddiad ar gyfer iechyd chwaraeon a gweithgaredd corfforol.

Yng Nghaerdydd, mae manteision gweithgarwch corfforol cerdded

# yn atal 172 o farwolaethau cynnar bob blwyddyn

175 yn 2021

sy'n werth

# £623 miliwn[iv]

£577 miliwn yn 2021

Sylwer fod teithiau cadair olwyn a sgwteri symudedd wedi'u modelu fel teithiau cerdded at ddibenion y modelau MOVES a HEAT.

Mae pobl yn cerdded ac yn olwyno mwy yn lle gyrru yn gwella ansawdd aer, gan roi arbedion blynyddol fel a ganlyn:

# 26,000 kg o $NO_x$

33,000 kg yn 2021

a

# 3,600 kg o ronynnau

4,600 kg yn 2021

($PM_{10}$ a $PM_{2.5}$)

**42%** o drigolion yn cytuno bod yr aer yn lân yn eu hardal leol

45% yn 2021

## Mae cerdded ac olwyno yng Nghaerdydd yn helpu i liniaru ein hargyfwng hinsawdd

11,000 tunnell yn 2021

# Arbedir 9,600 tunnell

o allyriadau nwyon tŷ gwydr (carbon deuocsid, methan ac ocsid nitraidd) yn flynyddol drwy gerdded neu olwyno yn lle gyrru, sy'n cyfateb i ôl troed carbon

26,000 o bobl yn 2021

# 24,000 o bobl yn hedfan

o Gaerdydd i Tenerife

Yn 2021, roedd trafnidiaeth yn cyfrif am **15%** o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru, a phrif ffynonellau hyn yw defnyddio petrol a disel mewn trafnidiaeth ar y ffyrdd.

Stats Cymru, Nwyon Tŷ Gwydr fesul blwyddyn

## Mae cerdded ac olwyno'n cadw Caerdydd yn symud

Mae astudiaethau'n dangos bod cerdded neu feicio yn rhyddhau lle ar y ffyrdd o'i gymharu â gyrru.[v] Mae hyn yn helpu i gadw Caerdydd yn symud ar gyfer holl ddefnyddwyr y ffyrdd.

86,000 yn 2021

# 77,000 o deithiau cerdded ac olwyno dwy ffordd

yn cael eu gwneud bob dydd yng Nghaerdydd gan bobl a allai fod wedi defnyddio car.


v. Litman, 2023. Evaluating Transportation Land Use Impacts. Based upon Eric Bruun and Vuchic, 1995. The Time-Area Concept.

Pe byddai'r ceir hyn i gyd mewn tagfa draffig byddai'n creu rhes

# 231 milltir

o hyd sy'n gyfwerth â'r pellter o Gaerdydd i Dover.

**258 milltir** yn 2021



iv. Yn seiliedig ar yr Europe Health Economic Assessment Tool (HEAT) gan Sefydliad Iechyd y Byd, sy'n galluogi asesiad economaidd o fuddion iechyd cerdded trwy amcangyfrif gwerth llai o farwolaethau o ganlyniad i symiau penodol o gerdded.



# Buddion beicio


## Pam mae pawb ar eu hennill pan fo mwy o bobl yn beicio

### Mae trigolion Caerdydd yn beicio 7 o weithiau o amgylch y byd bob dydd

O'i gymharu â 2021, mae cynnydd wedi bod mewn teithiau beicio o bob math.

**Teithiau beicio blynyddol yn ôl pwrpas yng Nghaerdydd[i]**

**2023:**
**17.5 miliwn o deithiau**





Gyda'i gilydd, mae hyn yn golygu

**61.3 miliwn o filltiroedd**

= **170,000 milltir** y dydd

**2021:**
**15.5 miliwn o deithiau**




Gyda'i gilydd, mae hyn yn golygu

**50.7 miliwn o filltiroedd**

= **140,000 milltir** y dydd

### Mae beicio o fudd i drigolion a'r economi leol

Mae'r Mynegai Cerdded a Beicio'n defnyddio model i ddeall costau a buddion gyrru a beicio. Er enghraifft, amser teithio, costau rhedeg cerbydau, buddion iechyd, ansawdd aer a threthi.

**94c** yn 2021

**Arbedir £1.40**

ar gyfer pob milltir a gaiff ei beicio yn hytrach na gyrru yng Nghaerdydd.

Dros flwyddyn mae hyn yn gyfanswm o

**£36.1 miliwn**

**£21.1 miliwn** yn 2021

gan oedolion sydd â char ar eu haelwyd yn beicio i'r gwaith, i'r ysgol ac i gyrchfannau eraill.

Cyfanswm y budd economaidd blynyddol o'r holl deithiau beicio yng Nghaerdydd yw


**£62.3 miliwn[ii]**

**£38.8 miliwn** yn 2021

i. Mae teithiau hamdden yn cynnwys oedolion a phlant (gyda a heb oedolyn yn gwmpeini). Dangosir teithiau addysg ar wahân ar gyfer oedolion a phlant. Mae pob taith arall yn cyfeirio at oedolion yn unig. ii. Mae hyn yn cynnwys teithiau beicio ar gyfer mwynhad neu ffitrwydd, a theithiau i gyrchfannau gan bobl sydd â char a'r rhai sydd heb gar.

## Mae beicio yn datgloi buddion iechyd i bawb

151 yn 2021 **Mae beicio yng Nghaerdydd yn atal 181 o gyflyrau iechyd hirdymor difrifol bob blwyddyn**




Mae 'cyflyrau eraill' yn cynnwys diabetes math 2, strôc, canser y fron, canser y colon a'r rhefr.

Mae hyn yn arbed

£1 miliwn yn 2021 **£2.4 miliwn y flwyddyn**
i'r GIG yng Nghaerdydd

cyfwerth â chost

33,000 yn 2021 **59,000 o apwyntiadau meddyg teulu**

Yn seiliedig ar gymhwyso data Caerdydd i offeryn MOVES Sport England sy'n cyfrifo'r enillion ar fuddsoddiad ar gyfer iechyd chwaraeon a gweithgaredd corfforol.

Yng Nghaerdydd, mae manteision gweithgarwch corfforol beicio

**yn atal 23 o farwolaethau cynnar bob blwyddyn** 17 yn 2021

sy'n werth

**£84.9 miliwn**[iii] £57 miliwn yn 2021

Mae pobl yn beicio mwy yn lle gyrru yn gwella ansawdd aer, gan roi arbedion blynyddol fel a ganlyn:

**14,000 kg o $NO_x$** 13,000 kg yn 2021

a

**2,000 kg o ronynnau** 1,800 kg yn 2021
($PM_{10}$ and $PM_{2.5}$)

**42%** o drigolion yn cytuno bod yr aer yn lân yn eu hardal leol 45% yn 2021

## Mae beicio yng Nghaerdydd yn helpu i liniaru ein hargyfwng hinsawdd

6,200 tunnell yn 2021 **7,100 tunnell**
o allyriadau nwyon tŷ gwydr (carbon deuocsid, methan ac ocsid nitraidd) yn flynyddol drwy feicio yn lle gyrru, sy'n cyfateb i ôl troed carbon

15,000 o bobl yn 2021 **17,000 o bobl yn hedfan**
o Gaerdydd i Tenerife

Yn 2021, roedd trafnidiaeth yn cyfrif am **15%** o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru, a phrif ffynonellau hyn yw defnyddio petrol a disel mewn trafnidiaeth ar y ffyrdd.

Stats Cymru, Nwyon Tŷ Gwydr fesul blwyddyn

## Mae beicio yn cadw Caerdydd yn symud

Mae astudiaethau'n dangos bod cerdded neu feicio yn rhyddhau lle ar y ffyrdd o'i gymharu â gyrru.[iv] Mae hyn yn helpu i gadw Caerdydd yn symud ar gyfer holl ddefnyddwyr y ffyrdd.

13,000 yn 2021 **15,000 o deithiau beicio dwyffordd**
yn cael eu gwneud bob dydd yng Nghaerdydd gan bobl a allai fod wedi defnyddio car.

iv. Litman, 2023. Evaluating Transportation Land Use Impacts. Based upon Eric Bruun and Vuchic, 1995. The Time-Area Concept.

Pe byddai'r ceir hyn i gyd mewn tagfa draffig byddai'n creu rhes

**44 milltir**
o hyd, sy'n gyfwerth â'r pellter o Gaerdydd i Abertawe.

**38 milltir** yn 2021



iii. Yn seiliedig ar yr Europe Health Economic Assessment Tool (HEAT) gan Sefydliad Iechyd y Byd, sy'n galluogi asesiad economaidd o fuddion iechyd beicio trwy amcangyfrif gwerth llai o farwolaethau o ganlyniad i symiau penodol o feicio.



# Atebion cerdded

## Beth fyddai'n helpu i wneud cerdded ac olwyno'n well?

### Mae trigolion eisiau mwy o wasanaethau ac amwynderau o fewn pellter cerdded ac olwyno

Yn ddelfrydol, cerdded ddylai fod yr opsiwn trafnidiaeth fwyaf deniadol ar gyfer y mwyafrif helaeth o deithiau byr. Gall dinas gefnogi hyn trwy sicrhau bod llawer o'r pethau y mae eu hangen ar bobl i'w cael yn agos at ble mae pobl yn byw. Dylai'r amgylchedd cerdded fod yn ddiogel, yn gyfforddus, yn groesawgar.

Cymdogaethau 20 munud yw cymdogaethau lle gellir cerdded o'ch cartref i lawer o'r pethau y mae eu hangen arnoch yn rheolaidd. Yn seiliedig ar siwrne gron 20-munud mae hynny'n tua 480 metr bob ffordd i'r rhan fwyaf o bobl.[i]

**Pa ganran o drigolion fyddai'n gweld mwy o amwynderau a gwasanaethau lleol yn ddefnyddiol i'w helpu i gerdded neu olwyno mwy?**

**80%**
Mwy o siopau a gwasanaethau bob dydd, fel banciau a swyddfeydd post, yn agos at eich cartref
**79%** yn 2021

**74%**
Mwy o wasanaethau'r llywodraeth, fel meddygfeydd ac ysgolion, yn agos i'ch cartref
**70%** yn 2021

**80%**
Mwy o barciau neu fannau gwyrdd yn agos at eich cartref
**83%** yn 2021

**79%**
Mwy o bethau i'w gweld a'u gwneud yn agos i'ch cartref, fel caffis neu leoliadau adloniant
**81%** yn 2021


**64%**
o aelwydydd Caerdydd mewn cymdogaethau o fwy na 40 annedd fesul hectar. Mae'r rhain yn – neu gallant fod yn – gymdogaethau 20 munud.
**64%** yn 2021

Mae'r cymdogaethau gyda phoblogaeth fwy dwys gyda mwy o bobl yn rai sy'n gallu cynnal busnesau a llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus lleol.[ii]

Mae **50%** yn cytuno y gallant gyrraedd llawer o leoedd y mae angen iddynt ymweld â hwy yn hawdd heb orfod gyrru
**60%** yn 2021

**Cyfran o aelwydydd sydd o fewn radiws 400m o'r amwynderau canlynol**

Modelir hyn fel pellter llinell syth, yn hytrach na'r gwir bellter cerdded yn seiliedig ar osodiad y strydoedd, sy'n debygol o fod yn bellach (yn cyfateb i 480m yn fras).




i. Asher et al, 2012. Mae'r rhan fwyaf o gerddwyr hŷn yn methu croesi'r ffordd mewn pryd: astudiaeth groestoriadol. Oedran a Heneiddio. ii. Sustrans, 2017. Cysylltu Teithio Llesol a Chludiant Cyhoeddus â Thwf a Chynllunio Tai. iii. O leiaf dri math gwahanol o leoliadau diwylliannol a hamdden, fel caffis, tafarndai, neuaddau bingo, sinemâu, amgueddfeydd.

## Mae trigolion eisiau strydoedd gwell

Mae yna lawer o ffyrdd i wneud ein strydoedd a'n cymdogaethau'n ddiogel, yn groesawgar ac yn gyfforddus i bawb gerdded ac olwyno ynddynt.

**Pa ganran o drigolion sy'n meddwl y byddai'r newidiadau hyn yn eu helpu i gerdded neu olwyno mwy?**

**65%**
Palmentydd lletach
**68%** yn 2021

**70%**
Croesfannau amlach dros ffyrdd, gyda chyfnodau aros llai
**68%** yn 2021

**73%**
Mannau brafiach ar hyd strydoedd i aros a gorffwys, fel mwy o feinciau, coed a chysgodfeydd
**79%** yn 2021

**72%**
Gwell hygyrchedd, fel arwynebau gwastad, cyrbiau is wrth groesfannau
**71%** yn 2021

**68%**
Llai o geir yn parcio ar y palmant
**69%** yn 2021

**70%**
Llai o ofn trosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardal
**68%** yn 2021


Yng Nghaerdydd, mae gan:

**43%** o ffyrdd A a B balmant sy'n lletach na 3m os nad oes rhwystr[iv]

**64%** o ffyrdd C ac annosbarthedig balmant sy'n lletach na 2m os nad oes rhwystr

**80%**
o drigolion yn cytuno y byddai mwy o fesurau i leihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y stryd neu mewn mannau cyhoeddus yn gwella eu hardal leol
**79%** yn 2021





### Heewr

Ar ôl i mi gael damwain a chael problem gyda fy nghoes, sylweddolais fod cerdded o le i le pan oeddwn yn sâl yn anodd, yn enwedig arosfannau bysiau.

Mae gan Gaerdydd lawer o strydoedd cul, gyda llawer o yrwyr dan straen, oherwydd mae pobl yn rhwystredig ynghylch pa mor brysur yw hi yng nghanol y ddinas a rhannau eraill o'r dref.

Dylai fod llai o geir o gwmpas a mwy o gyfleoedd i bobl orffwys pan maen nhw'n cerdded.

Byddai gweld mwy o goed o amgylch rhannau gwahanol o'r ddinas yn helpu pobl fod awydd cerdded mwy, hefyd. Heb goed a mannau gwyrdd, mae lleoedd yn edrych yn wag. Mae pobl yn ymlacio mwy mewn natur.

Dylech gael coed, parciau a mannau gwyrdd mewn unrhyw fan yr hoffech ddenu pobl i gerdded drwyddynt

iv. Mae mesuriadau ffynhonnell OS nawr yn eithrio cloddiau glaswellt, felly mae'n fwy cywir na chanrannau adroddiad 2021. Prif ffyrdd yw ffyrdd A a B. Mae ffyrdd C a ffyrdd annosbarthedig yn ffyrdd bychain ac yn aml yn strydoedd preswyl.




# Atebion beicio

## Beth fyddai'n gwneud beicio yn well?

## Mae llawer o drigolion Caerdydd eisiau beicio

### Sut mae trigolion yn gweld eu hunain o ran beicio?




Beicio'n rheolaidd: **13%**
**14%** yn 2021

Beicio'n achlysurol: **19%**
**21%** yn 2021

Yn newydd neu'n dychwelyd i feicio: **6%**
**5%** yn 2021

Nid ydynt yn beicio a ddim eisiau gwneud: **36%**
**31%** yn 2021

Nid ydynt yn beicio ond hoffent wneud: **26%**
**28%** yn 2021

### Pa gyfran o drigolion ddywedodd 'nad ydynt yn beicio ond hoffent wneud'?

**30%** o fenywod — **31%** yn 2021

**39%** o bobl o grwpiau lleiafrifol ethnig — **48%** yn 2021

**24%** o bobl anabl — **30%** yn 2021

## Mae trigolion eisiau gwell isadeiledd beicio

### Pa ganran o drigolion fyddai'n gweld cyfleusterau gwell yn help iddynt feicio mwy?

**70%**
Mwy o lwybrau beicio di-draffig oddi wrth y ffyrdd, fel trwy barciau neu ar hyd dyfrffyrdd
**75%** yn 2021

**62%**
Mwy o lwybrau beicio ar hyd ffyrdd, sydd wedi'u gwahanu'n ffisegol oddi wrth draffig a cherddwyr
**72%** yn 2021

**61%**
Mwy o lwybrau beicio lleol ag arwyddion ar hyd strydoedd tawelach
**73%** yn 2021

**69%**
Gwell cysylltiadau â thrafnidiaeth gyhoeddus, fel mannau parcio diogel i feiciau mewn gorsafoedd trenau
**69%** yn 2021

Mae **290** o leoedd parcio beiciau ar draws **20** o orsafoedd rheilffordd — **290** yn 2021

Mae gan Gaerdydd:[i]

**37 milltir**
o lwybrau beicio di-draffig oddi wrth y ffordd
**37 milltir** yn 2021

**7 milltir**
o lwybrau beicio wedi'u gwahanu'n ffisegol oddi wrth draffig a cherddwyr
**4 milltir** yn 2021

**1 filltir**
o lwybrau ag arwyddion ar hyd strydoedd tawelach
**1 filltir** yn 2021

Mae **16%**
o aelwydydd o fewn 125m i'r llwybrau hyn
**13%** yn 2021



**55%**
o drigolion yn cefnogi adeiladu mwy o lwybrau beicio ar y ffordd sydd wedi'u gwahanu'n ffisegol, hyd yn oed pan fyddai hyn yn golygu llai o le i draffig arall ar y ffyrdd
**67%** yn 2021



i. I sicrhau eu bod yn gyfatebol, mae'r ffigur a roddir yn gywir ar 31 Mai 2023 ar gyfer holl adroddiadau dinasoedd

## Mae trigolion eisiau mwy o gefnogaeth i feicio

### Pa ganran o drigolion sy'n meddwl y byddai'r mathau hyn o newidiadau yn eu helpu i feicio mwy?

**39%**
Cyrsiau hyfforddi beicio a reidiau cymdeithasol wedi'u trefnu
**41%** yn 2021

**47%**
Mynediad at neu welliannau i gynllun rhannu beiciau dinas
**56%** yn 2021

**49%**
Mynediad at feic
**58%** yn 2021

**53%**
Mynediad at storfa feiciau ddiogel yn y cartref neu'n agos ato
**59%** yn 2021

**40%**
Mynediad at feic trydan
**44%** yn 2021

**33%**
Mynediad at feic cargo gyda lle i gludo plant neu siopa
**37%** yn 2021

**22%**
Mynediad i feic wedi'i addasu, fel beic tair olwyn neu feic llaw
**25%** yn 2021

### Cynllun llogi beiciau Caerdydd[ii]

**1,030**
beiciau rhannu
**1,030** yn 2021

**99**
o orsafoedd rhannu beiciau
**101** yn 2021

**417,580**
o deithiau'r flwyddyn
**358,327** yn 2021

### Lladradau beiciau a gafodd eu riportio

Cafodd **1,286** o achosion o ddwyn beiciau eu riportio yng Nghaerdydd yn 2022/23.
**1,167** yn 2021/22

Am bob **131** o bobl sy'n berchen ar feic oedolyn yng Nghaerdydd, cafodd **1** beic ei riportio wedi'i ddwyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

### Cyfran o oedolion sydd â mynediad at feic oedolyn

**57%** o drigolion — **59%** yn 2021

**38%** o grŵp economaidd-gymdeithasol DE — **45%** yn 2021


**67%** o grŵp economaidd-gymdeithasol AB — **61%** yn 2021

**55%** o drigolion yn cefnogi disgowntiau ariannol ar gyfer pobl ar incwm isel neu sy'n ddi-waith i'w helpu i brynu beic

**38%** o gartrefi o fewn 800m i siop feiciau[iii]

Mae un lle parcio beic cyhoeddus ar gyfer pob **55** o bobl sy'n beicio yng Nghaerdydd.
**61** yn 2021

ii. Data yn cwmpasu Gorffennaf 2022–Mehefin 2023 Data 2021 yn cwmpasu Gorffennaf 2020–Mehefin 2021. Rhoddodd y cynllun Nextbike yng Nghaerdydd y gorau i weithredu ym mis Rhagfyr 2023.



### Tom, Sylfaenydd y Bike Lock café

Os na allwch chi wneud Caerdydd yn ddinas beicio, ble allwch chi wneud hynny? Mae'r ddinas yn un fach, mae'n wastad, mae'r afon a Llwybr Taf yn llwybro drwyddi, a nawr mae'n gweld cynnydd yn y nifer o lonydd beicio.

Mae arnom angen cannoedd o fannau parcio da ar gyfer beiciau yn yr orsaf drenau, mae arnom angen gwell darpariaeth lonydd beicio, mae arnom angen strydoedd mwy diogel.

Mae angen yr holl bethau hynny arnom, ond gallwn ni hefyd fod yn rhan o'r ateb. Yr hyn rydyn ni'n ceisio ei wneud yma yn y Bike Lock yw helpu pobl oresgyn rhai o'r rhesymau nad ydynt, efallai, yn beicio cymaint â hynny.

Rydyn ni'n dileu'r rhesymau hynny sy'n gwneud i bobl deimlo na allant deithio ar feic neu gerdded.

iii. Cydnabyddiaeth i'r Association of Cycle Traders (ACT) am eu cymorth gyda lleoliadau siopau beiciau a'r gwasanaethau maent yn eu cynnig.



# Atebion cymdogaeth

## Beth fyddai'n helpu i wneud cymdogaethau'n well?

### Dylai'r holl drigolion deimlo bod croeso iddynt yn eu cymdogaeth

**Cyfran y trigolion sy'n teimlo bod croeso iddynt ac sy'n gyfforddus yn cerdded, yn olwyno neu'n treulio amser ar strydoedd eu cymdogaeth**

**69%**
o drigolion
**69%** yn 2021

**68%** o fenywod
**68%** yn 2021

**71%** o ddynion
**70%** yn 2021

**64%** o bobl anabl
**61%** yn 2021

**71%** o bobl nad ydynt yn anabl
**73%** yn 2021

**65%** o bobl o grwpiau lleiafrifol ethnig
**60%** yn 2021

**70%** o bobl wynion
**71%** yn 2021

**56%** o bobl LHDTC+

**73%** o bobl nad ydynt yn LHDTC+

**58%** o grŵp economaidd-gymdeithasol DE
**59%** yn 2021

**74%** o grŵp economaidd-gymdeithasol AB
**80%** yn 2021

### Gall goruchafiaeth cerbydau modur annog pobl i beidio â cherdded, olwyno a beicio

Dim ond **30%** o drigolion sy'n meddwl nad yw eu strydoedd yn cael eu dominyddu gan gerbydau modur sy'n symud neu'n parcio.
**26%** yn 2021

**Byddai trigolion yn gweld llai o gerbydau modur ar eu strydoedd yn ddefnyddiol er mwyn:**

**62%** Cerdded neu olwyno mwy
**67%** yn 2021

**57%** Beicio mwy
**65%** yn 2021

Nid yw ffyrdd annosbarthedig wedi'u cynllunio i gludo traffig trwodd, ond yng Nghaerdydd, nid oes unrhyw beth i atal hynny ar hyd **23%** o gyfanswm hyd y ffyrdd hyn. Gall hyn arwain at lwybrau tarw ar y ffyrdd hyn.[i]
**23%** yn 2021

**49%** yn cytuno y byddai cyfyngu ar draffig trwodd ar strydoedd preswyl lleol yn gwneud eu hardal yn lle gwell.
**51%** yn 2021

**46%** o strydoedd Caerdydd eisoes â therfyn cyflymder 20mya cyn i'r cyflymder diofyn newid i 20mya ym mis Medi 2023.[ii]
**28%** yn 2021

**Byddai trigolion yn gweld mwy o strydoedd gyda therfynau cyflymder 20mya yn ddefnyddiol i:**

**44%** Cerdded neu olwyno mwy
**53%** yn 2021

**45%** Beicio mwy
**51%** yn 2021


### Mae trigolion eisiau i strydoedd lleol fod yn fannau gwell i bobl dreulio amser ynddynt

**56%**
yn cytuno y byddai creu mwy o le i bobl gymdeithasu, cerdded, olwyno a beicio ar eu stryd fawr leol yn gwella eu hardal leol
**62%** yn 2021

**50%**
yn cytuno eu bod yn sgwrsio'n rheolaidd â'u cymdogion, yn fwy na dim ond i ddweud helo
**50%** yn 2021

**55%**
yn cefnogi cymdogaethau traffig isel
**65%** yn 2021

i. Yn seiliedig ar ddadansoddiad gan CycleStreets www.lowtrafficneighbourhoods.org. Ffyrdd annosbarthedig yw pob ffordd gyhoeddus nad yw'n draffordd, nac yn ffordd A, B neu C. ii. Ac eithrio traffyrdd. Cywir ar 31 Mai 2023.



**Asha**

Mae yna lwybrau eithaf da yma a rhwydweithiau croesi ar gyfer cerddwyr. Hoffwn yn fawr pe bai cerddwyr yn cael mwy o flaenoriaeth ar groesfannau cerddwyr – mae rhai'n cymryd hydoedd i droi'n goch ar ôl gwasgu'r botwm, sy'n aml yn gadael cerddwyr yn aros yn rhy hir i gael croesi'n ddiogel. Dyw'r goleuadau ddim yn rhai clyfar chwaith, felly'n aml mae cerddwyr yn aros i oleuadau newid lliw, hyd yn oed pan mae'r ffyrdd yn glir.

Rwyf wedi teimlo bod beicio yng Nghaerdydd a'r cyffiniau'n gallu fy ngadael yn teimlo'n ynysig ar rai rhannau o'r ffyrdd.

Rwyf wedi cael cryn dipyn o gamdriniaeth gan geir neu faniau, gyda gyrwyr yn gwaeddi arnaf ac yn gwasgu eu cyrn.

Mae'n gwneud imi feddwl, "Ie, nid hwn yw'r llwybr mwyaf diogel y gallwn fod wedi'i ddewis a dyw hynny ddim yn iawn." Mae'r nifer o dyllau a sbwriel ar y strydoedd yn ormodol, sy'n peri peryglon a phyncjars.

## Rhaid dylunio cymdogaethau gyda phlant mewn golwg

Dylai cymdogaethau fod yn lleoedd i blant ffynnu. Mae cynyddu annibyniaeth, darparu lle i chwarae a chymdeithasu, a gwella'r siwrne i'r ysgol oll yn bwysig.

Os gwnawn ni ddylunio cymdogaethau gyda phlant mewn golwg, bydd yn gweithio'n well i bawb arall hefyd.

**11 mlwydd oed**
yw'r oedran cyfartalog pan fyddai pobl sy'n byw gyda phlant yn gadael iddynt gerdded neu feicio'n annibynnol yn eu cymdogaeth.

**12** mlwydd oed yn 2021

Mae **80%** o blant saith oed yn yr Almaen yn cael mynd ar eu pen eu hunain i leoedd o fewn pellter cerdded, heblaw am yr ysgol.[iii]

**49%** o drigolion yn cytuno bod lle i blant gymdeithasu a chwarae

**54%** yn 2021

**54%** o aelwydydd o fewn 800m i faes chwarae plant

Ymysg trigolion Caerdydd, roedd:

**46%** yn cytuno

**46%** yn cytuno yn 2021

**30%** yn anghytuno

**22%** yn anghytuno yn 2021

y byddai cau strydoedd y tu allan i ysgolion lleol i geir yn ystod amseroedd gollwng a chasglu ysgol yn gwella eu hardal leol

Fe'u gelwir yn 'Strydoedd Ysgol'.

**15 ysgol**
yng Nghaerdydd gynlluniau Strydoedd Ysgol[iv]

**5** cynllun yn 2021



iii. Children's Independent Mobility: cymhariaeth ryngwladol ac argymhellion ar gyfer gweithredu, 2015. iv. Roedd y ffigur a roddir yn gywir ar 31 Mai 2023.




# Datblygu Caerdydd

## Newidiadau diweddar i gerdded, olwyno, beicio a chymdogaethau

Ers yr adroddiad Mynegai Cerdded a Beicio diwethaf, mae Caerdydd wedi dod allan o'r pandemig Covid-19 gyda mwy o seilwaith teithio llesol, mwy o bwyslais ar greu lleoedd yng nghanol y ddinas a'i ddalgylchoedd, ac wedi atgyfnerthu polisïau sy'n annog newid ymddygiad.

Mae llawer o ymyriadau'n canolbwyntio ar ysgolion. Mae gan bob ysgol yng Nghaerdydd gynllun teithio llesol wedi'i ddiweddaru. Mae'r nifer o strydoedd ysgol yn cynyddu, gyda 15 ar ddiwedd 2022/23 a mwy yn yr arfaeth ar gyfer 2023/24. Mae hefyd llwybrau diogelach i ysgolion, gyda chroesfannau sebra a phâl, palmantau lletach, ail-alinio cerbytffyrdd, strydoedd unffordd, tybiau planhigion a chelf stryd. Mae gan lawer o ysgolion fflyd newydd o feiciau a sgwteri, storfeydd diogel ar gyfer beiciau, ac mae nifer o fysiau beicio wedi'u sefydlu erbyn hyn.

Mae'r rhwydwaith llwybrau beicio wedi'u neilltuo wedi tyfu, wedi'i sbarduno'n rhannol gan lwybrau beicio "dros dro". Mae llwybr ar draws y ddinas o Dreganna i Adamsdown, llwybr deheuol ar East Tyndall Street, a llwybr dros dro yng nghanol dalgylch ym Mharc y Ffynnon. Mae gan y llwybrau dros dro hyn nodweddion dylunio yn cynnwys ail-ddyrannu lle ar y ffordd, goleuadau traffig ar lefel isel ar gyffyrdd gyda chamau signal ar gyfer beiciau yn unig, ynysoedd bysiau, gwahanu goleuadau gan ddefnyddio ffyn, a gwahaniaethu gweledol gan ddefnyddio wyneb glas i'r ffordd.

Cafodd terfyn cyflymder 20mya diofyn ei beilota ar ffyrdd cyfyngedig yng ngogledd y ddinas, cyn y newid Cymru gyfan ar 17 Medi 2023. Mae gan y mwyafrif llethol o ffyrdd trefol yng Nghaerdydd nawr derfyn 20mya. Mae croesfannau sebra "syml" wedi cael eu peilota mewn tri lleoliad. Maent yn rhatach na chroesfan safonol, gyda llinellau gwyn yn unig, ac maent yn pwysleisio blaenoriaeth i gerddwyr wrth groesi strydoedd ochr. Maent yn cael eu gwerthuso, ac os ydynt yn llwyddiannus, byddant yn cael eu cyflwyno mewn rhannau eraill o Gaerdydd.

"

Cafodd terfyn cyflymder 20mya diofyn ei beilota ar ffyrdd cyfyngedig yng ngogledd y ddinas, cyn y newid Cymru gyfan ar 17 Medi 2023. Mae gan y mwyafrif llethol o ffyrdd trefol yng Nghaerdydd nawr derfyn 20mya.



## Coridorau trefol wedi'u hailgynllunio

Parhad Llwybr Beicio 1 ar hyd Teras Cathays a Heol Allensbank, gan gwblhau llwybr 1.8 milltir o ganol y ddinas i ysbyty mwyaf Cymru, yw cynllun beicio newydd blaenllaw'r ddinas. Mae'r ffyrdd hyn wedi'u hailgynllunio i gynnwys llwybr beicio dwyffordd wedi'i neilltuo, cau ffyrdd ochr gyda ffilterau moddol, triniaethau llwybr troed parhaus/cymysg ar ffyrdd ymyl, draenio cynaliadwy, ac arosfannau bysiau newydd. Roedd y cynllun yn cynnwys cael gwared ar fannau parcio ar un ochr i'r ffordd, wedi'i hwyluso gan system barcio wedi'i hailgynllunio ar gyfer yr ardal gyfan.



## Adfywio Trefol

Mae canol y ddinas wedi cael ei ail-ddychmygu, yn arbennig ar goridor Stryd Wood/Stryd Tudor sy'n mynd i'r gorllewin o'r orsaf drenau ganolog, gyda llwybrau beicio wedi'u gwahanu oddi wrth gerbydau modur, palmentydd wedi'u lledu, palmentydd deniadol, draeniad cynaliadwy gyda llwyni, plannu coed, gwenynen. arosfannau bysiau cyfeillgar, giât fysiau, safleoedd beicio newydd ar y stryd a chroesfannau twcan. Mae treial o groesfan pelican dros lwybr beicio i safle bws arnofiol wedi'i gynnwys. Mae gwaith o amgylch canol y ddinas a chanolfannau ardal eraill yn parhau.



## Troedffyrdd parhaus/cymysg

Mae Caerdydd wedi gweithredu llwybrau troed parhaus/cymysg mewn sawl lleoliad ar draws y ddinas, gan gynnwys ar Heol Ddwyreiniol y Bont-faen a Heol y Crwys. Mae parhau â llwybr troed ar draws cyffordd stryd ochr heb newid yn ei gwneud yn haws ac yn fwy diogel i gerddwyr groesi. Mae'n lleihau cyflymder cerbydau sy'n troi, yn byrhau hyd y groesfan ac yn darparu llwybr gwastad. Mae'n fodd gweledol o atgoffa gyrwyr y dylent ildio i gerddwyr sy'n croesi ffyrdd ochr.



# Edrych ymlaen

## Gwell strydoedd a lleoedd i bawb

Ar ôl pandemig Covid-19 a'r cyfnodau clo, mae patrymau gweithio a theithio wedi newid. Mae Caerdydd wedi gweld cynnydd mewn gweithio gartref a gweithio hybrid, a gostyngiad dilynol mewn teithio ar bob dull teithio ers 2019. I'r rhai nad ydynt gartref, mae'n parhau i fod yn wir mai cerdded yw'r dull teithio mwyaf cyffredin, gyda hanner yr holl drigolion yn cerdded bum niwrnod yr wythnos neu fwy. Mae un o bob pum preswyliwr hefyd yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos. Ynghyd ag ymyriadau eraill, gobeithir nawr am lefelau uwch o deithio llesol o ganlyniad i'r terfynau 20mya sydd bellach wedi'u rhoi ar waith yn llawn, wrth i gyflymderau is ar strydoedd preswyl ddod yn normal. Dengys y data bod trigolion eisiau cerdded, olwyno a beicio mwy, a'u bod eisiau gyrru llai.

Mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Chyngor Caerdydd wedi'u halinio i gefnogi'r galw hwn am deithio llesol. Mae'r cyllid sydd ar gael ar gyfer teithio llesol wedi cynyddu, gyda'r Gronfa Teithio Llesol bellach yn werth mwy na £22 y person y flwyddyn yng Nghymru. Mae Caerdydd hefyd wedi gwella ei seilwaith teithio llesol drwy ffynonellau cyllid eraill, er enghraifft cyllid adfywio, cyfraniadau cynllunio, a chyllid sy'n gysylltiedig â'r pandemig COVID-19. Ar yr un pryd, mae adroddiadau cenedlaethol a rhanbarthol fel yr Adolygiad Ffyrdd a Chomisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru wedi nodi bod mwy o ffocws ar deithio cynaliadwy ar goridorau trafnidiaeth rhanbarthol a'r rhwydwaith cefnffyrdd. Gan edrych ymlaen, mae'r Cyngor wedi gwneud penderfyniad mewn egwyddor i gyflwyno Taliad Defnyddwyr Ffyrdd, gan addo clustnodi enillion ar gyfer teithio cynaliadwy. At ei gilydd, mae'r cefndir polisi a chyllid i gefnogi mwy o drigolion i ddewis teithio llesol yn ymddangos yn addawol ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Bydd Caerdydd yn parhau i ganolbwyntio ar ysgolion, gan gydnabod y rhan hollbwysig y maent yn ei chwarae wrth annog teithio llesol o oedran cynnar, yn ogystal â'r angen i fynd i'r afael â'r problemau sylweddol o ran lefelau traffig a grëir gan y daith i'r ysgol. Bydd cymorth yn parhau i roi

> Bydd Caerdydd yn parhau i ganolbwyntio ar ysgolion, gan gydnabod y rhan hollbwysig y maent yn ei chwarae wrth annog teithio llesol o oedran cynnar, yn ogystal â'r angen i fynd i'r afael â'r problemau sylweddol o ran lefelau traffig a grëir gan y daith i'r ysgol.

cynlluniau teithio ysgol ar waith, gan ddefnyddio ymyriadau fel strydoedd ysgol, hyfforddiant beicio, darparu fflydoedd beiciau a sgwteri, storio beiciau ar y safle, a gwelliannau i lwybrau allweddol i ysgolion.

Bydd datblygiad parhaus y rhwydwaith beicio strategol yn rhan allweddol o fuddsoddiad teithio llesol yn y dyfodol. Mae gwaith paratoi wedi'i wneud ar y rhwydwaith i'r gorllewin i Dreganna, i'r dwyrain i Adamsdown, i'r gogledd-orllewin i mewn i Landaf ac i'r gogledd-ddwyrain o amgylch Parc y Rhath. Yn dilyn enghraifft cynllun Teras Cathays, bydd y cynlluniau hyn yn bennaf yn cynnwys llwybrau beicio ar wahân ac uwchraddio cyffyrdd gan gynnwys blaenoriaeth i gerddwyr a chroesfannau.

Mae cyllid wedi'i sicrhau ac mae gwaith yn cael ei ddatblygu ar gyfer canol y ddinas. Bydd coridor Stryd y Castell yn cael ei ail-ddylunio, gan wneud y lôn feics dros dro bresennol yn barhaol, a'i chysylltu drwy Heol y Porth â'r seilwaith beicio newydd i'r de ar Stryd Wood. Ar yr un pryd, mae Caerdydd yn gweithio gyda phartneriaid trafnidiaeth gyhoeddus i wella cerdded a beicio. Mae hyn yn cynnwys darparu llwybrau beicio ar wahân ar Sgwâr Callaghan, Heol Herbert, Stryd Bute a Heol Eglwys Fair law yn llaw â'r Metro a gwella cysylltedd i gerddwyr a darparu canolbwynt beicio fel rhan o'r gwaith adnewyddu i'r Orsaf Ganolog.

Y cynllun llogi beiciau ar y stryd hwn oedd yr un mwyaf llwyddiannus yn y DU o ran ei defnyddio ond cafodd ei dirwyn i ben oherwydd fandaliaeth. Mae'n amlwg fod galw am y gwasanaeth ac mae Cyngor Caerdydd yn gweithio ar gynlluniau ar gyfer cynllun newydd a mwy gwydn yn y dyfodol agos.

**Sita**



Dydw i ddim yn gyrru, felly rwy'n cerdded a beicio gryn dipyn. Byddwn yn teimlo'n sownd pe na bai gennyf seilwaith diogel i deithio ar hyd a chroesi ffyrdd prysur ar droed neu ar feic.

Diolch i'r lonydd beicio gallaf gyrraedd yn gyflym i lawer o leoedd yng Nghaerdydd lle mae angen i mi gyrraedd. Mae ardaloedd o gwmpas Caerdydd o hyd lle nad oes lonydd beicio dynodedig, ac mae hyn yn gwneud i mi deimlo'n llai diogel ac yn llai awyddus i feicio.

Weithiau, byddaf yn gofyn i fy mhartner ein gyrru i leoedd sy'n anos eu cyrraedd.

Gorau'r seilwaith, mwyaf fy anogaeth i feicio i bobman, ac i annog eraill i wneud hynny hefyd.

Hoffwn uwchraddio fy meic, a phe bai mwy o gymorth i feicio, megis gwell cynlluniau beicio yn y gweithle, byddai hyn yn hynod ddefnyddiol i sicrhau mai beicio yw fy newis o ddull teithio o hyd.

**Nodiadau ar fethodoleg:**

Cynhaliwyd yr arolwg agweddau rhwng Mawrth a Mehefin 2023 gan y sefydliad ymchwil cymdeithasol annibynnol NatCen.

Mae'r arolwg yn gynrychioliadol o holl drigolion Caerdydd, nid dim ond y rhai sy'n cerdded, yn olwyno neu'n beicio.

Casglwyd data arolwg 2021 rhwng Mehefin ac Awst 2021, hefyd gan NatCen, gan ddilyn yr un fethodoleg.

Daw'r holl ddata arall oddi wrth ein partneriaid dinas, setiau data cenedlaethol neu cawsant eu modelu a'u cyfrifo gan Sustrans.

Mae amcangyfrifon teithio'n defnyddio model a ddatblygwyd gan Sustrans. Wrth gymharu ag arolygon teithio eraill, gall fod rhywfaint o amrywiaeth yng nghyfran y teithiau sy'n cael eu beicio yn ôl pwrpas y siwrne.

Defnyddiwyd talgrynnu drwy gydol yr adroddiad. Mewn llawer o achosion rydym wedi talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. Osgoir talgrynnu lle gallai hyn achosi dryswch, er enghraifft gydag amcangyfrifon wedi'u modelu a ddangosir yn yr adrannau crynodeb a buddion.

Mae rhagor o wybodaeth a methodoleg fanwl ar gael ar www.sustrans.org.uk/walking-cycling-index

---

Mae Sustrans yn ei gwneud yn haws i bawb gerdded, olwyno a beicio.

Rydym yn gweithio gyda chymunedau ac ar eu rhan, gan eu helpu i ddod yn fyw drwy gerdded, olwyno a beicio i greu lleoedd iachach a bywydau hapusach i bawb.

Ymunwch â ni ar ein siwrne. www.sustrans.org.uk

Mae Sustrans yn elusen gofrestredig yn y DU Rhif 326550 (Cymru a Lloegr) SC039263 (Yr Alban)

© Sustrans Mawrth 2024
© Ffotograffau: Matthew Horwood, ac eithrio p2: Andrew Jeffery p7, 9, 15, 17, 19, 21 (top a chanol), Kalpana Tagore p23.

Diolch i Open Route Service am eu cefnogaeth gyda'u ategyn isochrone yn QGIS.

RECYCLED
Paper made from recycled material
FSC® C120778
www.fsc.org

Argraffwyd gyda 100% ynni adnewyddadwy gan ddefnyddio proses ddi-alcohol ac inc wedi'i wneud o blanhigion

---

Ariennir a chefnogir Mynegai Cerdded a Beicio Caerdydd gan y Freshfield Foundation a Chyngor Caerdydd. Cydlynir y prosiect gan Sustrans.

CARDIFF
CAERDYDD

